



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gwlad Fach I Disgwyliadau Mawr

Ein Cynllun Lles Anifeiliaid i Gymru 2021-26



Cynnwys

Rhagair y Gweinidog	3
Cyflwyniad	5
Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid	7
Lles Anifeiliaid a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	8
Un Lles	10
Rôl Milfeddygon	11
Ein Cynllun: Ei Roi ar Waith a'i Adolygu	12
Ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu	13
Gwaith ar Bolisi Cymru	16
Cydweithio ar Bolisi'r DU/Prydain Fawr	19
Atodiad	
Ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu: Camau a'u Cymryd	21



Rhagair Y Gweinidog

Lesley Griffiths

Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd.

Testun balchder mawr i ni yw bod y Rhaglen Lywodraethu¹ rydym newydd ei chyhoeddi yn rhoi lle amlwg iawn i les anifeiliaid, gan roi cyfle i ni adeiladu ar yr holl waith da rydym wedi'i wneud ers datganoli'r pwerau iechyd a Lles anifeiliaid i Gymru yn 2006.

Ein huchelgais yw bod holl anifeiliaid Cymru yn cael byw bywyd o ansawdd da. Dyna nod strategol ein Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid a'r edefyn sy'n cysylltu pob un o'n polisïau. I ategu'r Cynllun Lles Anifeiliaid pum mlynedd hwn, byddwn yn cyhoeddi Cynllun Gweithredu newydd yn ddiweddarach eleni ar gyfer Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid. Mae'r strategaethau a'r gweithredoedd yn y ddau yn ategu ei gilydd ac wedi'u hintegreiddio â'i gilydd, i ddangos ein hymroddiad i weithio mewn ffordd gydgyssylltiedig. Yn adlewyrchu hynny hefyd, bydd iechyd a lles yn ganolog i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy sydd gennym ar y gweill, gan wireddu ein huchelgais cytûn i hybu enw da Cymru ymhellach fel gwlad sy'n caru ac yn parchu ei hanifeiliaid ac yn gofalu amdanyn nhw.

Mae llwyddiant ein cynllun yn dibynnu ar gydweithio. Rydyn ni'n ddiolchgar am ein perthynas gref a hir â'r diwydiant ffermio, mudiadau'r Trydydd Sector, Awdurdodau Lleol Cymru, asiantaethau gorfodi, milfeddygon, y cymunedau gwyddonol a'n cydweithwyr yng ngweinyddiaethau eraill y Deyrnas Unedig. Lawn cyn bwysiced yw'n cysylltiadau uniongyrchol â phobl Cymru, trwy eu gohebiaeth â ni, eu hymatebion i ymgynghoriadau cyhoeddus ac yn fwy sylfaenol, trwy eu cydnabyddiaeth o'u rôl allweddol fel perchenogion cyfrifol ar eu hanifeiliaid.

Un o ystyriaethau sylfaenol ein cynllun yw addysgu a chodi ymwybyddiaeth pawb sy'n gysylltiedig â chadw anifeiliaid. Yn ogystal â sicrhau bywyd o ansawdd da i anifeiliaid yng Nghymru, bydd hynny'n cyfrannu at sicrhau bod ceidwaid anifeiliaid y dyfodol yn deall sut y gall yr arferion gorau wneud gwahaniaeth go iawn.

Er mai gwlad fach yw Cymru, mae'n disgwyliadau'n fawr ac yn eang eu cwmpas. Rydym yn rhoi gwahoddiad cynnes i bob asiantaeth, grŵp rhanddeiliaid a dinasyddion Cymru i fabwysiadu a chefnogi'n Cynllun Lles Anifeiliaid i Gymru.

¹ Rhaglen lywodraethu 2021 i 2026 | LLYW.CYMRU

Mae ein Cynllun Lles Anifeiliaid i Gymru 2021-26 yn adeiladu ar y gwaith da sydd wedi'i wneud yng Nghymru ym maes lles anifeiliaid yn y 15 mlynedd diwethaf. Yn ystod tymor hwn y Llywodraeth, byddwn yn cyflwyno ystod eang o bolisïau i gynnal momentwm y diwygiadau sydd wedi'u gwneud ym maes lles anifeiliaid ers datganoli'r pwerau hynny i ni.



Cyflwyniad

Mae ein Cynllun Lles Anifeiliaid i Gymru yn cynnwys mynd i'r afael â phedwar ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu o ran lles anifeiliaid, a hefyd esbonio sut y byddwn yn integreiddio'r ystod o bolisiau lles anifeiliaid rydyn ni'n gweithio arnyn nhw, gan gynnwys canllawiau statudol ar gyfer Rheoliadau, trwyddedu arddangosfeydd anifeiliaid, rhoi microsglodion ar gŵn a chathod, lles anifeiliaid wrth eu cludo a Chodau Ymarfer. Rydym yn cydnabod hefyd bod angen adolygu'r ddeddfwriaeth lles anifeiliaid ond gan gadw peth hyblygrwydd i allu cymryd camau polisi newydd os gwelir bod angen. Yn olaf, bydd y cynllun yn ystyried sut a phryd y dylem gydweithio â gweinyddiaethau eraill y DU er mwyn gwireddu'n hamcanion o ran lles anifeiliaid yng Nghymru a thu hwnt.

Sylfaen ein gwaith yw Deddf Lles Anifeiliaid 2006² a'i heffaith ddi-dor a gweddnewidiol. Y ddeddfwriaeth hon oedd y gyntaf i ymgorffori'r egwyddor "gwell atal clwy' na'i wella", gan bennu pum angen pob anifail a gedwir o ran ei les:

- > Yr angen am amgylchedd addas;
- > Yr angen am ddiet addas;
- > Yr angen i allu ymddwyn yn naturiol;
- > Yr angen i gael ei gadw gydag anifeiliaid eraill, neu ar wahân iddynt;
- > Yr angen i gael ei amddiffyn rhag poen, dioddefaint, anaf ac afiechyd.

² www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/45contents

Rydym ni'n credu bod cysylltiad agos rhwng diogelu lles anifeiliaid ac iechyd pobl ac anifeiliaid. Mae'n hanfodol darganfod clefydau'n gyflym er mwyn i benderfyniadau ac ymyriadau priodol ac amserol allu cael eu gwneud i ddiogelu iechyd pobl ac anifeiliaid ac i ddiogelu bwyd, lles anifeiliaid a'r amgylchedd. Mewn cyd-destun byd-eang cyfnewidiol a heriol, rhaid ymroi fwyfwy i atal clefydau egsoftig, hyrwyddo cynlluniau iechyd anifeiliaid a bioddogelwch, rheoli lledaeniad ymwrthedd i wrthfotigau a thaclo'r prif glefydau endemig trwy raglenni dileu.

Mae sefyllfa ryngwladol newydd yn golygu bod heriau newydd a chyfleoedd newydd yn ein hwynebu. A ninnau wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd, mae lles anifeiliaid fferm yn elfen fwyfwy pwysig yn ein trafodaethau masnach. Bydd y cynllun hwn yn esbonio sut a phryd y byddwn yn cydweithio'n glos â gweinyddiaethau eraill y DU i sicrhau bod safonau lles anifeiliaid a threfniadau gorfodi, yn awr ac yn y dyfodol, yn effeithiol er budd anifeiliaid, pobl Cymru a'r amgylchedd.

Ein nod yw bod Cymru'n cael cydnabyddiaeth fel esiampl i bawb oherwydd ei safonau lles anifeiliaid, am y modd y mae arferion da yn cael eu mabwysiadu a'u rhannu, am y modd y trafodir â'r prif randdeiliaid, am y mecanweithiau gorfodi effeithiol, cefnogol a chynaliadwy sy'n cael eu datblygu, am ei chyfraniad at ymchwil ac am hyrwyddo addysg a pherchenogaeth gyfrifol, hynny er lles cenedlaethau heddiw ac fory.

Wrth weithio i wireddu'r uchelgais hwn, mae mentrau polisi, yn fwyaf arbennig Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid³, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015⁴ ac egwyddorion 'Un Lles', i gyd wedi dylanwadu ar y cynllun hwn sydd wedi'i ddatblygu i gyd-fynd â nhw.



³ Fframwaith ar gyfer iechyd a lles anifeiliaid | LLYW.CYMRU

⁴ Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015

Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid

Rydym wedi sicrhau bod cysondeb strategol rhwng amcanion y cynllun hwn a Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid (AHWF Cymru) 2014-24 sy'n ceisio cynnal a gwella safonau iechyd a lles anifeiliaid a gedwir, diogelu iechyd pobl a chyfrannu at yr economi a'r amgylchedd. **Wrth gyrchu at yr amcanion hyn, nod y Fframwaith yw gwireddu pum canlyniad strategol:**

01 anifeiliaid iach cynhyrchiol

02 anifeiliaid sy'n byw bywyd o ansawdd da

03 cyhoedd sy'n hyderus â'r ffordd rydym yn cynhyrchu bwyd ac yn diogelu iechyd y cyhoedd

04 economi wledig lewyrchus

05 amgylchedd o ansawdd uchel

Mae'r fframwaith yn dibynnu ar i bartneriaid gydweithio â'i gilydd. Mae'n anelu at weld mwy o gydweithio a chydweithredu rhwng Llywodraeth Cymru, ceidwaid da byw a pherchenogion anifeiliaid eraill a chynrychiolwyr y diwydiant gan fynd i'r afael â phob agwedd ar iechyd a lles anifeiliaid, ac i godi safonau.

Cafodd Grŵp AHWF Cymru ei sefydlu yn 2014 i fonitro a chefnogi canlyniadau a blaenoriaethau'r Fframwaith. Ymhlith dyletswyddau'r aelodau y mae herio polisi newydd, ac ysgwyddo rôl gynrychioliadol fel llefarwyr ar faterion iechyd a lles anifeiliaid i gefnogi addysg a newid ymddygiad. I roi'r Fframwaith ar waith, a'i wneud mor effeithiol â phosibl, mae'r Grŵp yn cyhoeddi Cynlluniau Gweithredu, a ffocws pob un yw cyfrifoldebau perchenogion a lles yr anifeiliaid.

Byddwn yn cadw'r egwyddorion a hyrwyddwyd gan Grŵp AHWF Cymru mewn cof wrth roi Cynllun Lles Anifeiliaid Cymru ar waith, gan gynnwys:

- > gweithio mewn partneriaeth;
- > hyrwyddo'r mantra 'gwell atal clwy na'i wella';
- > deall ac ysgwyddo rolau a chyfrifoldebau;
- > cynnal a gorfodi safonau'n effeithiol.

Lles Anifeiliaid a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn canolbwyntio ar wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol. Wrth gynnal ein cynllun, byddwn yn cofleidio egwyddorion datblygu cynaliadwy fel y'u hamlinellir yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol, drwy:

- > ystyried y tymor hir rhag peryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw;
- > gweithio mewn ffordd integredig fel bod rhanddeiliaid yn ystyried yr holl nodau llesiant wrth benderfynu ar eu hamcanion;
- > cynnwys amrywiaeth o'r boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt;
- > cydweithio â rhanddeiliaid i ddod o hyd i atebion cynaliadwy y gellir eu rhannu;
- > deall achosion sylfaenol problemau er mwyn eu hatal rhag digwydd eto.



**LLESIANT
CENEDLAETHAU'R DYFODOL
WELL-BEING OF
FUTURE GENERATIONS**

Hefyd, rydym wedi cynnwys saith nod model Cenedlaethau'r Dyfodol yn ein cynllun:

Cymru lewyrchus –

trwy wella safonau lles anifeiliaid, caiff iechyd, lles a chynhyrchiant anifeiliaid eu gwella mewn ffordd sy'n sicr ei moesoldeb, sy'n amgylcheddol gynaliadwy ac o les i'r economi. Elfennau eraill y nod yw cefnogaeth ar gyfer hyfforddi gweithlu arbenigol gwybodus a galluog ynghyd â phrosiectau i wella addysg y boblogaeth ehangach;

Cymru gydnerth –

trwy hyrwyddo safonau uchel o ran lles anifeiliaid i gynnal amgylchedd naturiol a bioamrywiol gydag ecosystemau iach sy'n gweithio, sy'n ecolegol gadarn ac sy'n gallu addasu i heriau'r dyfodol;

Cymru iachach –

trwy gydnabod safonau uchel o ran lles anifeiliaid, bydd hynny'n adlewyrchu ac yn gwella llesiant a safle moesol y bobl gan ddod â budd i genedlaethau heddiw ac yfory;

Cymru fwy cyfartal –

trwy gael croestoriad eang o gymdeithas i gyfrannu at ddatblygu a chynnal polisi lles anifeiliaid er mwyn cael pobl i'w gefnogi ac iddo gael yr effaith fwyaf ar gymaint o bobl â phosibl;

Cymru o gymunedau cydlynus –

dod â chymunedau ynghyd trwy nodau ac uchelgeisiau cytûn wrth gynnal a hyrwyddo'r safonau lles anifeiliaid uchaf;

Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu –

trwy dynnu ar dreftadaeth ddiwylliannol gyfoethog a dwyieithog Cymru fel gwlad sy'n adnabyddus am ei heconomi wledig lewyrchus gydag egwyddorion lles anifeiliaid cryf yn sail iddi;

Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang –

trwy sicrhau lle medrir, wrth gynnal safonau lles anifeiliaid uchel yng Nghymru, bod hynny'n ategu neu'n gyson â'r arfer rhyngwladol gorau, ac ystyried sut y gellid defnyddio'r hyn a wnawn yng Nghymru i gyfrannu mewn ffordd adeiladol at les y byd.

Un Lles

Mae ein Cynllun Lles Anifeiliaid i Gymru'n adlewyrchu'r cysyniad sydd wedi cael cryn gydnabyddiaeth ryngwladol, sef Un Lles, sy'n pennu'r cysylltiadau rhwng lles anifeiliaid, llesiant pobl a'r amgylchedd. Mae Un Lles yn ceisio gwella llesiant pobl a lles anifeiliaid ledled y byd trwy hyrwyddo amcanion fel diogelu cyflenwadau bwyd, lleihau dioddefaint pobl a gwella cynhyrchiant y sector ffermio trwy ddeall yn well werth safonau lles uchel.

Mae Un Lles yn ategu agenda Un Iechyd sy'n ymdrin ag iechyd pobl, anifeiliaid a'r amgylchedd ac sy'n hyrwyddo cysylltiadau uniongyrchol ac anuniongyrchol rhwng lles anifeiliaid, llesiant pobl a systemau amgylcheddol gynaliadwy ar gyfer cadw anifeiliaid. Mae Un Lles yn ffordd hefyd i wella lles anifeiliaid a llesiant pobl trwy'r byd, fel sail ar gyfer ehangu cyfleoedd i'r diwydiannau ffermio a gwyddonol, ac ar gyfer gwneud cymunedau ledled y byd yn fwy cydnerth a diogel.



Mae pum adran y Fframwaith Un Lles⁵ yn adlewyrchu hyd a lled y cysyniad yn ogystal â'i weledigaeth sy'n seiliedig ar bwysigrwydd sylfaenol a phellgyrhaeddol lles anifeiliaid trwy ganolbwyntio ar:

> Y cysylltiad rhwng camdrin ac esgeuluso pobl a chamdrin ac esgeuluso anifeiliaid

> Goblygiadau cymdeithasol gwella lles anifeiliaid

> Iechyd a lles anifeiliaid, llesiant pobl, diogelu'r cyflenwad bwyd a chynaliadwyedd

> Cefnogaeth i ymyriadau er lles anifeiliaid, pobl a'r amgylchedd

> Bioamrywiaeth, yr amgylchedd, lles anifeiliaid a llesiant pobl

Mae ein Cynllun yn ymgorffori uchelgeisiau eang AHWF Cymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r cysyniad Un Lles. Maen nhw'n sail hefyd i lawer o waith Swyddfa Prif Swyddog Milfeddygol Cymru o ran datblygu polisi iechyd a lles anifeiliaid, a rhan allweddol y proffesiwn milfeddygol yn y broses honno.

⁵ About One Welfare - One Welfare (onewelfareworld.org)

Rol Milfeddygon

Mae milfeddygon yn allweddol i wella iechyd a lles ein hanifeiliaid. Maen nhw'n ysgwyddo amrywiaeth o rolau gan hyrwyddo a diogelu iechyd a lles ein hanifeiliaid anwes, ein da byw a'r anifeiliaid egsotig yn ein gerddi swolegol.

Mae ein Milfeddygon Swyddogol yn gwneud gwaith statudol ar ran Llywodraeth Cymru, er enghraifft mae eu presenoldeb mewn lladd-dai yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau sy'n diogelu lles anifeiliaid.

Mae eu gwaith hefyd yn hanfodol wrth sicrhau bod y bwyd rydym yn ei fwyta yn ddiogel, yng nghyd-destun mewnforio ac allforio anifeiliaid byw a chynhyrchion sy'n tarddu o anifeiliaid, ac o ran monitro a rheoli clefydau, gan gynnwys ein Rhaglen Dileu TB. Mae milfeddygon preifat yn drwm eu dylanwad ar geidwaid da byw, gan atal a rheoli clefydau, er enghraifft drwy gynlluniau iechyd da byw. Maen nhw hefyd yn gofalu am iechyd a lles ein hanifeiliaid anwes.

Mae milfeddygon yn ganolog hefyd yn y gwaith o ddatblygu deddfwriaeth ar gyfer diogelu lles anifeiliaid. Maen nhw'n cefnogi gweithgareddau gorfodi, yn cydweithio ag asiantwyr allweddol yng Nghymru ac yn ymwneud â chymeradwyo a thrwyddedu ystod eang o sefydliadau cadw anifeiliaid. Hefyd, mae gwaith milfeddygon heddiw yn hanfodol i ysbrydoli'r rheini fydd yn eiriolwyr dros les anifeiliaid yn y dyfodol, er enghraifft myfyrwyr colegau amaethyddol yng Nghymru a'r Ysgol Gwyddor Filfeddygol sydd newydd ei sefydlu ym Mhrifysgol Aberystwyth. Yn olaf, mae milfeddygon yn ganolog i'r gwaith ymchwil a datblygu sy'n digwydd yn y byd academiaidd a diwydiant, ac yn gwneud gwaith amhrisiadwy ym maes cadwraeth bywyd gwyllt.

Mae Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol yng Nghymru yn gweithio'n agos gyda'r holl randdeiliaid, ond mae ganddi gysylltiad arbennig o gryf â Chymdeithas Milfeddygon Prydain (BVA). Gan efelychu trywydd ein Cynllun Lles Anifeiliaid i Gymru, mae prif gynlluniau'r BVA yn cydnabod y cysylltiad rhwng iechyd anifeiliaid a lles anifeiliaid, a phwysigrwydd cydweithredu, fel y dywedir yn adroddiad diweddar One Health in Action⁶:



Perhaps unsurprisingly, 'health' goes beyond the absence of disease to also embrace welfare, including mental health, and the reduction of injuries. 'Animals' goes beyond livestock to also embrace companion animals and wildlife, and the 'environment' can be anywhere animals and people interact — at the core is interdisciplinary collaboration.



⁶ bva_one_health_in_action_report_nov_2019.pdf

Ein Cynllun: Ei Roi ar waith a'i Adolygu

Mae elfennau ein Cynllun Lles Anifeiliaid i Gymru a'r amserlen fras ar gyfer ei roi ar waith, yn cael eu dangos isod mewn tri chategori:

> **Ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu**

> **Gwaith ar bolisi Cymru**

> **Cydweithio ar bolisi'r DU/Prydain Fawr**



Bydd Grŵp AHWF Cymru yn monitro effeithiolrwydd y cynllun a'r ffordd y caiff ei roi ar waith yn rheolaidd ac yn adolygu'r rhestr o'r camau sydd i'w cymryd a'r amserlenni er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol ac effeithiol. Cynhelir adolygiadau bob blwyddyn, er y gall y Grŵp gynghori newidiadau unrhyw bryd fel ymateb i flaenoriaethau ac amgylchiadau newydd.

Fe welwch yr amserlenni ar gyfer cyflawni pedwar ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu yn yr Atodiad i'r cynllun hwn. Caiff gwaith ar y categorïau eraill ei wneud a'i ddatblygu fesul cam dros gyfnod y cynllun, gan ymgynghori â Grŵp AHWF Cymru (ar waith ar bolisi Cymru), a chydweithio â gweinyddiaethau'r DU (cydweithio ar bolisi'r DU/Prydain Fawr).

Disgrifir y polisïau, a'u cyd-destun, sy'n berthnasol i bob categori isod. Nodir hefyd y cysylltiadau rhwng gweithgareddau yng nghategoriâu 2 a 3 a'r rheini yn ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu. Roedd yr wybodaeth yn gywir adeg cyhoeddi hwn ond gall newid wrth i'r cynllun gael ei ddatblygu a'i roi ar waith.

Ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu

Cyhoeddwyd y Rhaglen Lywodraethu sy'n cynnwys ein pedwar ymrwymiad lles anifeiliaid yn 2021. Disgrifir pob ymrwymiad, a cheir rhagor o fanylion am y gweithgareddau ac amserlen eu cynnal yn yr Atodiad i'r ddogfen hon.

01**Datblygu model cenedlaethol ar gyfer rheoleiddio lles anifeiliaid, gan gyflwyno cofrestr ar gyfer sefydliadau lles anifeiliaid, bridwyr masnachol anifeiliaid anwes neu anifeiliaid ar gyfer saethu, ac arddangosfeydd anifeiliaid.**

Mae'r diffiniad canlynol yn esbonio'r gwaith fydd yn cael ei wneud ar yr ymrwymiad hwn:

Model cenedlaethol ar gyfer trwyddedu a rheoleiddio sefydliadau a busnesau sy'n canolbwyntio ar anifeiliaid a gedwir, i sicrhau bod hynny'n cael ei wneud mewn ffordd gyson, ac i sicrhau bod gofynion Rheoleiddio yn cael eu rhoi ar waith yn gadarn a chyson ledled Cymru.

Rhagwelir y bydd model cenedlaethol yn:

- > creu proses ganolog a safonol ar gyfer gweinyddu ceisiadau am drwydded ac un man cyfeirio ar gyfer ymgeiswyr a'r cyhoedd;
- > sicrhau mwy o gysondeb wrth gefnogi busnesau ac asiantaethau gorfodi/rheoleiddio;
- > creu model safonol ar gyfer datblygu deddfwriaeth yn y dyfodol;
- > gwella gallu Awdurdodau Lleol unigol ledled Cymru i ddygymod â digwyddiadau na allent fod wedi'u rhagweld sy'n bygwth eu gallu i barhau â'u gwaith.

02**Gwella'r cymwysterau i arolygwyr lles anifeiliaid i godi eu statws proffesiynol**

Er mwyn gorfodi deddfwriaeth a'i rhoi ar waith yn well, rhaid wrth ddealltwriaeth glir gytûn o'r hyn a ddisgwylir a pham. Mae angen hyfforddiant cyson a chydlynol ar swyddogion gorfodi, ac mae angen i'r swyddogion eu hunain gael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi am eu rôl bwysig wrth sicrhau bod safonau lles anifeiliaid uchel yn cael eu cynnal.

Mae gweithgareddau gorfodi'r Asiantaeth Safonau Bwyd a'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion yn cael eu cydlynu ac mae eu rolau wedi'u diffinio'n glir. Mae llawer o waith rhagorol yn cael ei wneud hefyd o fewn gwasanaethau gorfodi Awdurdodau Lleol, er nad oes bob tro mecanweithiau a gweithdrefnau i sicrhau cysondeb ledled Cymru gyfan.

Diben prosiect tair blynedd (a ddisgrifir isod) sydd wrthi'n cael ei gynnal ac a ariennir gan Lywodraeth Cymru yw gwella'r gefnogaeth ar gyfer hyfforddi swyddogion gorfodi, i ddechrau mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth ar sefydliadau bridio cŵn. Byddwn yn gweithio gyda thîm y prosiect i ehangu'r cynllun i Gymru gyfan i gefnogi gweithgareddau a datblygiad proffesiynol swyddogion gorfodi.

03**Gwneud teledu cylch cyfyng yn ofynnol ym mhob lladd-dy**

Mae ein rhwydwaith o ladd-dai yng Nghymru yn darparu gwasanaeth hanfodol i ffermwyr, cigyddion a defnyddwyr. Maen nhw hefyd yn cynnal gweithlu medrus a llawer o gadwyni cyflenwi integredig lleol. Mae nifer o fesurau eisoes ar waith yn ein lladd-dai i ddiogelu lles anifeiliaid, gyda Milfeddygon Swyddogol yn bresennol i sicrhau y cydymffurfir â rheoliadau. Mae'r diwydiant ei hun hefyd wedi cyhoeddi canllawiau helaeth ar yr arfer gorau o ran diogelu lles anifeiliaid adeg eu lladd.

Mae ein lladd-dai mwy, sy'n prosesu'r mwyafrif helaeth o anifeiliaid, eisoes yn defnyddio teledu cylch cyfyng. Maent hefyd yn cadw at brotocol a ddatblygwyd ac y cytunwyd arno ar y cyd â'r Asiantaeth Safonau Bwyd a chyrrff y diwydiant i filfeddygon allu cael gafael ar luniau wedi'u recordio. Er na all teledu cylch cyfyng byth fod cystal â goruchwyliaeth uniongyrchol gan reolwyr lladd-dai neu filfeddygon, yn enwedig ar safleoedd bach iawn, gall roi tystiolaeth wrthrychol o'r gwaith ym mhob sefydliad. Am hynny, rydym am ei gwneud yn ofynnol i osod a gweithio teledu cylch cyfyng ym mhob man lle bydd yna anifeiliaid.

04**Cyfyngu ar ddefnyddio cewyll ar gyfer anifeiliaid a ffermir**

Fel rhan o'n hymrwymiad i wella safonau lles anifeiliaid a ffermir, rydym yn gweithio gyda Llywodraethau'r DU a'r Alban i ystyried y dystiolaeth ynghylch defnyddio cewyll mewn ffermio, gan gynnwys cewyll wedi'u cyfoethogi ar gyfer ieir dodwy, cratiau porchella a chewyll bridio ar gyfer adar hela. Ein nod yw cael ffordd gyson o weithio, cyn belled ag y bo modd, ar draws Prydain Fawr er lles anifeiliaid.

Gwaith ar Bolisi Cymru

Canllawiau Statudol ar gyfer Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedau Gweithgareddau sy'n ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021

Mae Canllawiau Statudol wedi'u paratoi ar gyfer swyddogion gorfodi Awdurdodau Lleol i gefnogi Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedau Gweithgareddau sy'n ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021. Mae'r rheoliadau'n ymdrin yn bennaf â gwerthu anifeiliaid anwes, gyda phwyslais arbennig ar atal gwerthu cŵn a chathod bach gan drydydd partion. Mae'r canllawiau statudol yn rhan o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu (y gyntaf a'r ail) i esbonio'r prosesau archwilio a gorfodi yn unol â model y gellir wedyn ei roi ar waith ar draws cyd-destunau lles anifeiliaid cysylltiedig.

Camau i'w Cymryd:

- > Ystyried yr ymateb i'r ymgynghoriad a chyhoeddi crynodeb o'r ymatebion;
- > Cyhoeddi canllaw statudol;
- > Gweithio ar y cyd â Phrosiect Gorfodi Awdurdodau Lleol, i wneud yn siŵr bod yr hyfforddiant i swyddogion gorfodi'n amserol a chynhwysfawr.

Diweddarau canllawiau statudol ar gyfer Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014

Caiff y canllawiau statudol ar gyfer Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014 eu diwygio, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus i grisialu a chryfhau rhai meysydd gorfodi. Er ein bwriad yn y pen draw yw diweddarau rheoliadau 2014, ni wnawn ystyried hynny tan i ni weld

canlyniadau Prosiect Gorfodi'r Awdurdodau Lleol. Rydym yn rhagweld y caiff unrhyw newidiadau i'r Rheoliadau presennol eu hymgorffori yn y Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021.

Camau i'w Cymryd:

- > Ystyried yr ymateb i ymgynghoriad 2021 a chyhoeddi crynodeb;
- > Cyhoeddi'r canllawiau statudol diwygiedig;
- > Sefydlu gweithgor o randdeiliaid i ystyried problem maint y llociau mewn sefydliadau bridio cŵn gyda golwg ar wneud rhagor o newidiadau i'r canllawiau statudol;
- > Ystyried diweddariadau i Reoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014.

Prosiect Gorfodi Awdurdodau Lleol (2020-23)

Nod y prosiect hwn sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru (yn un o ymrwymiadau'r ail Raglen Lywodraethu) yw sefydlu system Cymru gyfan ar gyfer hyfforddi swyddogion gorfodi Awdurdodau Lleol:

Camau i'w Cymryd:

- > Gweithio'n uniongyrchol ag arweinwyr y prosiect i sicrhau ei fod yn gwireddu ei amcanion blynyddol a chyffredinol;
- > Gweithio â thîm y prosiect i ddatblygu strategaeth ar gyfer ehangu'r prosiect ar lefel Cymru gyfan ar gyfer hyfforddi swyddogion gorfodi.

Trwyddedu Arddangosfeydd a Sefydliadau Anifeiliaid

Bydd trwyddedu arddangosfeydd anifeiliaid a sefydliadau anifeiliaid yn cael ei gynnwys mewn deddfwriaeth bwrsasol. Yn gysylltiedig â'n hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu gyntaf, ac yn adeiladu ar y gwaith sydd eisoes wedi'i wneud yn y maes hwn, byddwn yn cynnal ymgynghoriadau pellach gyda'r nod o gyflwyno gofynion newydd o bosibl o dan Reoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) (Cymru) 2021.

Camau i'w Cymryd:

- > Edrych eto ar yr ymgynghoriadau ar arddangosfeydd anifeiliaid a wnaed cyn cyflwyno Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021 a'u hadolygu;
- > Cydweithio â rhanddeiliaid allweddol ac ymgynghori ar gynigion newydd ar gyfer trwyddedu gweithgareddau sy'n ymwneud ag anifeiliaid, o bosibl gan gynnwys arddangosfeydd anifeiliaid teithiol, rasio milgwn a sefydliadau lles anifeiliaid (gan gynnwys llochesi a chanolfannau ailgartrefu);
- > Cyflwyno gofynion rheoleiddio newydd o bosibl drwy gyflwyno gwelliant i Reoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021, ynghyd â'r Canllawiau statudol cysylltiedig.

Rhoi Microsglodion ar Gŵn a Chathod

Mewn partneriaeth â Llywodraethau'r DU a'r Alban, rydym wedi comisiynu ymchwil ar effeithiolrwydd y rheoliadau presennol ar ficrosglodynnu cŵn. Bydd yr ymchwil yn ystyried hefyd y manteision posibl o'i gwneud yn orfodol microsglodynnu cathod a chathod bach.

Ar hyn o bryd mae'n orfodol rhoi microsglodion ar gi bach a'i gofrestru cyn iddo gyrraedd ei wyth wythnos oed.

Mae microsglodynnu yn help mawr i gael hyd i anifail sydd ar goll, sydd wedi'i ddwyn neu sydd wedi bod mewn damwain ar y ffordd. Dangosodd ymchwil ddiweddar gan Battersea Dogs Home fod microsglodynnu'n gweithio o'i wneud yn iawn. Llwyddodd awdurdodau lleol i gael 94% o gŵn strae a oedd â microsglodion yn ôl gyda'u perchnogion. Yn ogystal, roedd cŵn ar goll 54% yn fwy tebygol o fod yn ôl gyda'u perchnogion os oedd ganddynt ficrosglodyn na chŵn heb ficrosglodyn⁷.

Camau i'w Cymryd:

- > Ar sail ffrwyth yr ymchwil, ystyried newidiadau i wella trefniadau gorfodi a'r rheolaeth ar gronfeydd data;
- > Ystyried ei gwneud yn orfodol microsglodynnu cathod;
- > Ymgynghori ar y newidiadau a gynigir i'r rheoliadau ar ficrosglodynnu;
- > Ystyried, gan ddibynnu ar ganlyniad y gwaith ymchwil a'r ymgynghoriad, reoliadau newydd ar ficrosglodynnu cathod a chŵn yng Nghymru.

⁷ Battersea research reveals how effective microchipping is in helping find lost dogs | Battersea Dogs & Cats Home

Codau Ymarfer

Bwriad ein Codau Ymarfer yw annog pawb sy'n gyfrifol am anifeiliaid i gadw at y safonau gorau i ddiwallu anghenion lles anifeiliaid. Maen nhw'n esbonio'r hyn y mae angen i berchennog neu geidwad anifail ei wneud i fodloni'r safonau gofal sy'n ofynnol o dan y gyfraith. Maen nhw hefyd yn esbonio'r mesurau gorfodi ac erlyn.

Diweddarwyd nifer o'n Codau yn ystod tymor diwethaf Llywodraeth Cymru a chaiff y gweddill eu diwygio, a'u halinio (lle bo'n bosibl) â chodau gweinyddiaethau eraill y DU er mwyn sicrhau cysondeb.

Camau i'w Cymryd:

- > Pennu cylch adolygu'r Codau, a threfnu diweddariadau i adlewyrchu datblygiadau polisi a newidiadau deddfwriaethol, gan gynnwys ymrwymadau ein Rhaglen Lywodraethu;
- > Adolygu'r Codau yn unol â'r cylch adolygu;
- > Ystyried a oes angen codau newydd mewn meysydd eraill;
- > Sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn deall pwrpas a manylion y Codau;



Cydweithio ar Bolisi'r Du/Prydain Fawr

Er bod pwerau iechyd a lles anifeiliaid wedi'u datganoli i Gymru, o dan rai amgylchiadau daw manteision o gydweithio â Llywodraeth y DU. Wrth ystyried cydweithio, rhaid sicrhau bod manteision amlwg i Gymru a rhesymau clir dros wneud. Ni fyddwn yn cydweithio oni bydd yn arwain at gydlynu, hyfforddi a gorfodi gwell.

Dyma ddwy enghraifft o gydweithio â Llywodraeth y DU a Gweinyddiaethau Datganoledig eraill.

Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir)⁸

Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i gyflwyno mesurau ychwanegol i ddiogelu anifeiliaid trwy'r Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir). Mae hynt y Bil yn dibynnu ar amserlen Senedd y DU, ond rhagwelir y daw i ben ei daith yn 2022.

Mae'r Bil yn cynnwys nifer o gynigion sy'n ymwneud ag anifeiliaid fferm ac anwes a byddent yn elwa o ddilyn un trywydd o ran deddfwriaeth a gorfodi ar lefel Prydain Fawr neu Gymru/Lloegr. Er enghraifft, mae'n ceisio datrys problem cŵn sy'n ymosod neu'n aflonyddu ar dda byw drwy gynnig diddymu Deddf Cŵn (Diogelu Da Byw) 1953 a rhoi cyfres newydd o ddarpariaethau yn ei lle. Mae hefyd yn ceisio ehangu'r diffiniad o dda byw sy'n cael eu gwarchod a'r meysydd y mae'r pwerau'n effeithio arnynt.

Bydd yn gwahardd cadw, bridio, gwerthu a throsglwyddo primatiaid heb drwydded benodol i sicrhau eu bod yn cael eu cadw at safon lles uchel sy'n adlewyrchu eu hanghenion lles penodol. Mae'r Bil hefyd yn cynnig diwygio Deddf Trwyddedu Sŵau 1981 i gynyddu'r gosb am beidio â chydymffurfio a rhoi mesurau gorfodi gwell i Awdurdodau Lleol er mwyn gorfodi pwerau trwyddedu i sicrhau bod gweithredwyr sŵau yn cydymffurfio â'n Safonau Ymarfer Modern ar gyfer Sŵau. Bydd gwelliant arall yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu gofynion cadwraethol.

Mae'r Bil yn cynnig gwahardd allforio amrywiol anifeiliaid, gan gynnwys gwartheg, defaid, moch, geifr a cheffylau byw i'w lladd, gan gynnwys eu pesgi i'w lladd wedyn. Mae hefyd yn cynnwys cynigion i newid nifer y cŵn a chathod bach neu ffuredau y gellir eu dod â nhw i'r wlad hon, yn ogystal â phwerau newydd i reoleiddio mewnforio cŵn a chathod bach sydd ag anffurfiau penodol, fel clustiau wedi'uocio.

Camau i'w Cymryd:

- > Dilyn hynt y Bil gan fod yn barod i osod Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol fydd yn caniatáu estyn ei ddarpariaethau i Gymru heb beryglu pwerau datganoledig;
- > Paratoi diwygiadau canlyniadol i Ddeddfwriaeth Gymreig y gallai fod eu hangen ar ôl y Cydsyniad Brenhinol (er enghraifft, o ran lles anifeiliaid wrth eu cludo, cynllun PET, cŵn sy'n ymosod ar dda byw, a thrwyddedu sŵau).

⁸ Animal Welfare (Kept Animals) Bill - Parliamentary Bills - UK Parliament

Lles Anifeiliaid wrth eu Cludo

Yn ein barn ni, ni ddylid cludo anifeiliaid oni bai bod hynny'n angenrheidiol a dylid cadw hyd y daith mor fach â phosibl. Rydym wedi ymgynghori ar y cyd â Llywodraeth y DU ar wella lles anifeiliaid wrth eu cludo⁹. Rydym hefyd wedi gofyn am farn ar wahardd allforio anifeiliaid byw i'w lladd ac ar gynigion mwy cyffredinol i wella amodau cludo anifeiliaid, gan gynnwys: amserau teithio, gwres ac awyru, uchder y nenfwd, morgludiant a faint o le.

Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau eraill i ystyried sut y gellir cryfhau'r mesurau ar gyfer diogelu lles anifeiliaid wrth eu cludo. Mae tystiolaeth yn dangos bod teithiau hir yn gallu achosi straen gwres, dadhydradu ac anafiadau corfforol mewn anifeiliaid sy'n cael eu cludo.

Camau i'w Cymryd:

- > Gweithio gyda rhanddeiliaid ac arbenigwyr – gan gynnwys grwpiau ffermio a lles anifeiliaid – ar fesurau i wella lles anifeiliaid fferm wrth eu cludo.

⁹ Gwelliannau i les anifeiliaid mewn trafndiaeth | LLYW.CYMRU

Atodiad: Ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu: Camau a'u Cymryd

Ymrwymiadau	Camau i'w Cymryd	Bl. 1 2021- 2022	Bl. 2 2022- 2023	Bl. 3 2023- 2024	Bl. 4 2024- 2025	Bl. 5 2025- 2026
01 Datblygu model cenedlaethol ar gyfer rheoleiddio lles anifeiliaid, gan gyflwyno cofrestr ar gyfer sefydliadau lles anifeiliaid, bridwyr masnachol anifeiliaid anwes neu anifeiliaid ar gyfer saethu, ac arddangosfeydd anifeiliaid.	Gan weithio ar y cyd ag asiantaethau gorfodi, Prosiect Gorfodi'r ALLau a phrif fudiadau'r trydydd sector, byddwn yn: <ul style="list-style-type: none"> > crynhoi'r holl ddeddfwriaeth drwyddedu i weld ble mae'r bylchau > datblygu rhestr o reoliadau trwyddedu newydd > llunio dogfen flaenoriaethau i ymgynghori arni. 					
	Byddwn yn ymgynghori ar ddogfen flaenoriaethau cyn ei chyhoeddi fydd yn nodi'r amserlen a'r canlyniadau.					
	Byddwn yn cyhoeddi'r ddogfen flaenoriaethau derfynol fel atodiad i'r cynllun hwn. .					
	Bydd Prosiect Gorfodi Awdurdodau Lleol yn: <ul style="list-style-type: none"> > ceisio safoni'r drefn (cyn belled â phosibl) ar gyfer trwyddedu gweithgareddau sy'n ymwneud ag anifeiliaid > diweddarau a moderneiddio prosesau trwyddedu a'r dogfennau a ddefnyddir gan fusnesau > gwella sgiliau swyddogion gorfodi a'u harferion a'u trefniadau. 					
	Gan weithio ar y cyd â'r Prosiect Gorfodi ALLau byddwn yn: <ul style="list-style-type: none"> > monitro'r prosiect > asesu a yw'n gweithio fel model cenedlaethol. 					

Ymrwymadau	Camau i'w Cymryd	Bl. 1 2021- 2022	Bl. 2 2022- 2023	Bl. 3 2023- 2024	Bl. 4 2024- 2025	Bl. 5 2025- 2026
<p>02 Gwella'r cymwysterau i arolygwyr lles anifeiliaid i godi eu statws proffesiynol</p>	Sefydlu gweithgor ar y cyd ag APHA, FSA ac ALLau i weld pa gymwysterau sydd eu hangen ar swyddogion gorfodi'r asiantaethau gwahanol.					
	Bydd y gweithgor yn llunio adroddiad ar sut orau i wella gwaith gorfodi ledled Cymru ac yn cyflwyno adroddiad i'r Gweinidog ar gyfleoedd neu fylchau yn y ddarpariaeth.					
	Bydd y gweithgor yn llunio cynllun ar gyfer gwella hyfforddiant a chymwysterau ac ar barhau i weithio ar y cyd ledled Cymru i rannu arferion gorau.					
	Gan weithio ar y cyd â'r prif rhanddeiliaid, byddwn yn creu ymgyrch ar y cyd i godi ymwybyddiaeth am rolau a chyfrifoldebau perchenogion anifeiliaid, gan roi sylw i addysgu'r genhedlaeth nesaf o berchenogion.					
<p>03 Gwneud teledu cylch cyfyng yn ofynnol ym mhob lladd-dy</p>	Byddwn yn gweithio â rhanddeiliaid i baratoi ac ymgynghori ar Reoliadau drafft fydd yn ei gwneud yn ofynnol i ladd-dai cymeradwy ddefnyddio teledu cylch cyfyng ym mhob man lle bydd anifeiliaid byw yn bresennol.					
	Daw'r gofyn i osod teledu cylch cyfyng ym mhob lladd-dy yng Nghymru i rym.					

Ymrwymiadau	Camau i'w Cymryd	Bl. 1 2021- 2022	Bl. 2 2022- 2023	Bl. 3 2023- 2024	Bl. 4 2024- 2025	Bl. 5 2025- 2026
04 Cyfyngu ar ddefnyddio cewyll ar gyfer anifeiliaid a ffermir	Byddwn yn cynnal ymarfer cwmpasu i weld pa fath o gewyll sy'n cael eu defnyddio. Byddwn yn edrych sut a ble maen nhw'n cael eu defnyddio ac i ba raddau maen nhw'n cael eu defnyddio. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraethau'r DU a'r Alban i ystyried effaith systemau hen a newydd ar les anifeiliaid.					